

Polisi Hawl Dioddefwr i Adolygiad

Cynnwys

Cefndir.....	3
Cwmpas Hawl y Dioddefwr i Adolygiad (VRR).....	3
Pwy all wneud cais am Hawl Dioddefwr i Adolygiad?	4
Hysbysu'r dioddefwr am ei hawl i adolygiad	5
Y broses o arfer hawl i adolygiad	5
Ceisiadau tu hwnt i'r cyfyngiad amser	6
Rhyngweithio gyda llunio penderfyniadau eraill	7
Yr adolygiad	8
Pwy fydd yn gyfrifol?	8
Faint o amser fydd yr adolygiad yn ei gymryd?	8
Pa ddeunydd fydd yr adolygydd yn ei ystyried?.....	8
Pa safon fydd yn cael ei weithredu?	9
Cadw cofnodion	10
Dynodi camau ymchwilio pellach a/neu lunio penderfyniadau gwallus	10

Cefndir

Mae Erthygl 11 Cyfarwyddeb 2012/29 yr Undeb Ewropeaidd (“Cyfarwyddeb yr UE”) yn sefydlu’r safonau gofynnol o ran hawliau, cefnogaeth a diogelu dioddefwyr troseddau, ac mae’n rhoi’r hawl i ddiodefwyr gael adolygiad o benderfyniad i beidio ag erlyn.

Nid yw’r IOPC yn ystyried bod Cyfarwyddeb yr UE yn rhoi dyletswydd gyfreithiol gaeth arno i ddarparu ‘Hawl Dioddefwr i Adolygiad’ (‘VRR’) ac mae’r IOPC mewn gwahanol agweddau mewn sefyllfa wahanol i’r CPS a’r heddlu (y ddau yn gweithredu cynllun o’r fath). Er enghraifft, nid yw’r IOPC yn erlynydd awdurdodedig ac rydym yn gweithredu dan gynllun statudol sy’n nodi prosesau penodol i’w dilyn.

Er gwaethaf hynny mae’r IOPC wedi penderfynu cyflwyno proses VRR. Mae hyn oherwydd yr anghyfarfartaledd fyddai’n deillio fel arall rhwng hawliau dioddefwr trosedd sy’n honni bod y drosedd wedi ei chyflawni gan aelod o’r cyhoedd ac un sy’n honni bod trosedd wedi’i chyflawni gan berson sy’n gwasanaethu gyda’r heddlu, pan fydd yr honiad yn destun ymchwiliad annibynnol neu a reolir/dan gyfarwyddyd gan yr IOPC.

Ni fydd y cynllun yn berthnasol i adolygiadau neu apeliadau a gynhelir gan yr IOPC yn dilyn ymchwiliad gan yr heddlu.

Cwmpas Hawl y Dioddefwr i Adolygiad (VRR)

Mae’r hawl i adolygiad yn codi pan, yn dilyn ymchwiliad troseddol, fydd yr IOPC yn gwneud “penderfyniad dros dro”¹ i beidio ag atgyfeirio’r achos at y CPS dan baragraff 23(2) o Atodlen 3 o *Ddeddf Deddf Diwygio’r Heddlu 2002*. Mae “ymchwiliad troseddol” yn cyfeirio at ymchwiliad IOPC² pan benderfynwyd bod awgrym y gall unigolyn y mae ei ymddygiad yn destun i’r ymchwiliad fod wedi cyflawni trosedd. Ond, dim ond i achosion sy’n ymwneud â throedd dan y Safon Cofnodi Troseddau Cenedlaethol y mae’r hawl i adolygiad yn berthnasol. Yn ychwanegol, ni fydd yr hawl i adolygiad yn berthnasol pan na fu’n bosibl adnabod rhywun all fod dan amheuaeth, gan na fydd penderfyniad i atgyfeirio’n cael ei wneud dan yr amgylchiadau hynny.

Nid yw’r achosion canlynol yn dod o dan gwmpas y VRR:

- Penderfyniad i beidio atgyfeirio at y CPS a wnaed cyn 1 Rhagfyr 2020.
- Achosion lle mae penderfyniad wedi ei wneud i atgyfeirio at y CPS ar ddiwedd ymchwiliad, ond nad yw’r atgyfeiriad hwnnw yn ymwneud â phawb oedd yn ddarostyngedig i’r ymchwiliad troseddol. Ond, pan na fydd **unrhyw un** o’r rhai oedd yn ddarostyngedig i’r ymchwiliad a/neu faterion a atgyfeiriwyd yn ymwneud â’r digwyddiad (honedig neu fel arall) a effeithiodd ar ddiodefwyr penodol, bydd y diodefwyr hwnnw/honno yn cadw hawl i adolygiad.

¹ Penderfyniad dros dro yw penderfyniad cychwynol i beidio ag atgyfeirio at y CPS. Bydd y penderfyniad yn parhau yn un dros dro am y cyfnod a nodir ar gyfer cais am adolygiad. Os na dderbynnir cais am adolygiad, yna bydd y penderfyniad, dan baragraff 23(2) Atodlen 3 Deddf Diwygio’r Heddlu, yn dod yn derfynol.

² Gall ‘ymchwiliad IOPC’ fod yn annibynnol, dan gyfarwyddyd neu yn un a reolir.

- Achosion pan fydd peidio ag atgyfeirio at y CPS yn deillio o derfyniad³ achos dan baragraff 21 o Atodlen 3 Deddf Diwygio'r Heddlu.
- Achosion pan atgyfeiriwyd at y CPS i gael penderfyniad cyhuddo cyn i'r ymchwiliad gael ei gwblhau; bod y penderfyniad hwnnw yn negyddol, ac na fu unrhyw newid perthnasol yn y dystiolaeth ers hynny.

Os atgyfeiriwyd at y CPS a bod y CPS wedi penderfynu peidio ag erlyn, yna bydd y dioddefwr yn cael ei atgyfeirio at Gynllun VRR y CPS.

Pwy all wneud cais am Hawl Dioddefwr i Adolygiad?

Mae gan unrhyw ddiodeffwr hawl i ofyn am adolygiad o benderfyniad i beidio ag atgyfeirio at y CPS.

Mae'r IOPC yn defnyddio'r diffiniad o ddiodeffwr sydd yn y Cod Ymarfer Dioddefwyr Troseddau ('y Cod') a gyhoeddwyd yn 2015. Ar gyfer diben y Cod hwn mae "dioddefwr" yn cael ei ddiffinio fel:

- person naturiol⁴ sydd wedi diodeff niwed, gan gynnwys niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol neu golled economaidd, a achoswyd yn uniongyrchol gan drosedd; neu
- berthynas agos i unigolyn yr achoswyd ei farwolaeth yn uniongyrchol gan drosedd.

Bydd 'perthynas agos' yn cynnwys priod, partner, rhieni, brodyr a chwiorydd neu unrhyw ddibynyddion i'r diodeffwr. Dan amgylchiadau priodol gall aelodau eraill o'r teulu, gan gynnwys gwarcheidwaid a gofalwyr, hefyd gael eu hystyried yn berthnasau agos.

Yn unol â'r Cod, bydd unigolyn yn cael ei alw yn ddiodeffwr pan fydd wedi honni ei fod wedi diodeff niwed (gan gynnwys niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol neu golled economaidd) a achoswyd yn uniongyrchol gan drosedd, neu y gwnaed honiad o'r fath ar ei ran, neu os cysylltwyd ag ef/â hi fel diodeffwr yn ystod ymchwiliadau.

Gall yr hawl i adolygiad gael ei arfer gan rywun sy'n gweithredu ar ran diodeffwr dan amgylchiadau priodol. Dylid ystyried hyn fesul achos, ac yn gyffredinol bydd angen caniatâd ysgrifenedig gan y diodeffwr oni bai nad yw hyn yn bosibl, er enghraifft, oherwydd oedran neu anabledd y diodeffwr. Ni chaniateir ceisiadau ar ran diodeffwr pan fydd y diodeffwr wedi tynnu ei gefnogaeth i'r ymchwiliad yn ôl. Pan fydd y diodeffwr dan 18, yn unol â'r Cod, bydd yr IOPC yn cadw buddiannau'r diodeffwr yn brif ystyriaeth.

Pan fydd yn berthnasol, dylid hefyd ystyried unrhyw gefnogaeth ychwanegol y gall fod ar ddiodeffwr bregus ei hangen⁵.

³ Mae 'terfyniad' yn cyfeirio at ymchwiliad yn cael ei ddwyn i ben cyn ei gwblhau, am un o nifer gyfyngedig o resymau (er enghraifft, nid yw'r ymchwiliad yn rhesymol o ymarferol). Ni fydd terfyniad yn berthnasol dan *Ddeddf Plismona a Throseddu 2017*.

⁴ Er enghraifft, ni fyddai busnes yn gymwys ar gyfer VRR.

⁵ Pennir diodeffwr bregus gan gyfeirio at adran 16 *Deddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol 1999*.

Hysbysu'r dioddefwr am ei hawl i adolygiad

Mae'n ofynnol i'r ymchwilydd arweiniol hysbysu'r dioddefwr am y penderfyniad dros dro i beidio ag atgyfeirio'r mater at y CPS. Ar yr adeg hon, bydd yr ymchwilydd arweiniol hefyd yn hysbysu'r dioddefwr am ei hawl i adolygiad. Mae taflen wybodaeth ar gael a dylid ei hanfon at y dioddefwr gyda'r hysbysiad hwn. Bydd yr awdurdod priodol⁶ ac unrhyw unigolyn perthnasol arall hefyd yn cael gwybod am y penderfyniad dros dro a pherthnasedd y broses VRR.

Rhaid rhoi digon o wybodaeth o ran y penderfyniad i beidio ag atgyfeirio'r mater at y CPS i'r dioddefwr i'w alluogi i ystyried yn briodol a phenderfynu a yw am ofyn am adolygiad. Ond, ni fydd gwybodaeth o'r fath yn cael ei datgelu pan fydd angen at ddiben:

- a) atal datgelu cynamserol neu amhriodol ar wybodaeth sy'n berthnasol i gamau troseddol gwirioneddol neu arfaethedig neu y gellid ei defnyddio mewn achos o'r fath;
- b) atal datgelu gwybodaeth dan unrhyw amgylchiadau os bydd peidio ei datgelu –
 - (i) er budd diogelwch cenedlaethol;
 - (ii) at ddibenion atal neu ddatgelu trosedd, neu ddal neu erlyn troseddwyr;
 - (iii) yn ofynnol ar sail cymesuredd, neu
 - (iv) yn angenrheidiol fel arall er budd y cyhoedd.

Ni fydd peidio â datgelu yn cael ei ystyried yn angenrheidiol heblaw pan fydd:

- (a) risg wirioneddol y bydd datgelu'r wybodaeth honno yn achosi effaith niweidiol, ac
- (b) y byddai'r effaith niweidiol honno'n sylweddol.

Rhaid i unrhyw ddatgeliad gydymffurfio â chyfraith diogelu data.

Y broses o arfer hawl i adolygiad

Rhaid gofyn am adolygiad cyn pen 28 diwrnod calendr o ddyddiad y llythyr yn hysbysu'r dioddefwr am ei hawl i adolygu, yn amodol ar eithriadau cyfyngedig.

Pan fydd llai nag un mis calendr cyn i'r cyfyngiad amser statudol ddod i ben ar gyfer troseddau ditiadwy, bydd yn ofynnol i'r ceisiadau VRR gael eu cyflwyno ynghynt, er mwyn i'r cais gael ei ystyried cyn i'r cyfyngiad amser statudol ddod i ben. Os na dderbynnir cais o fewn yr amserlen benodedig, bydd y penderfyniad atgyfeirio dros dro yn cael ei gadarnhau, a bydd y dioddefwr, y gwrthrych a'r awdurdod priodol yn cael eu hysbysu yn ôl hynny.

⁶ Yr awdurdod priodol sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau yng nghyswllt materion disgyblu ar ran y prif swyddog perthnasol neu'r corff plismona lleol.

Dylai cais am adolygiad fel arfer gael ei wneud yn ysgrifenedig, boed trwy e-bost neu lythyr. Ond, bydd cais trwy gyfrwng arall, er enghraifft cais ar lafar, yn cael ei dderbyn os byddai'r dioddefwr dan anfantais fel arall.

Gall y dioddefwr arfer ei hawl trwy gais syml; nid oes angen i resymau neu ddadleuon gael eu cyflwyno. Ond, bydd unrhyw gyflwyniadau a wneir o fewn y cyfyngiad amser a bennwyd yn cael eu hystyried yn yr adolygiad.⁷

Bydd pob cais yn cael ei gofnodi wrth ei dderbyn a'i ddyrannu i'r adolygydd addas nesaf fydd ar gael.

Dylai'r gwrthrych a'r awdurdod priodol gael eu hysbysu am unrhyw geisiadau VRR a deilliannau posibl adolygiad cyn gynted ag sy'n bosibl.

Ceisiadau tu hwnt i'r cyfyngiad amser

Dim ond dan amgylchiadau eithriadol y bydd unrhyw gais am VRR a gyflwynir ar ôl y cyfyngiad amser, ac yn amodol ar gyfyngiad absoliwt o dri mis o ddyddiad y llythyr hysbysu, yn cael ei dderbyn. Bydd cais tu hwnt i'r cyfyngiadau amser yn cael ei ddyrannu i adolygydd annibynnol yn y modd arferol, a fydd yn ystyried amgylchiadau penodol yr achos, hyd yr oedi, ac unrhyw resymau a roddwyd am hyn.

Bydd yr adolygydd yn gyntaf yn pennu, dan bob amgylchiad, a yw'n briodol i Adolygiad gael ei gynnal. Os nag ydyw, bydd y dioddefwr yn cael ei hysbysu yn unol â hynny. Gall amgylchiadau gael eu hystyried yn 'eithriadol', er enghraifft, pan fydd:

- Y dioddefwr wedi bod yn yr ysbyty, ac wedi methu ymateb;
- Y dioddefwr yng ngharchar, ac na roddwyd hysbysiad iddo/iddi am y penderfyniad dros dro hyd ar ôl y dyddiad cau ymateb;
- Y dioddefwr yn dioddef problem iechyd meddwl, ac oherwydd hyn nad oedd wedi gallu ymateb o fewn yr amserlen a ganiateir.

Wrth gwrs, pan fydd yn berthnasol, dylid gwneud addasiadau rhesymol yn unol â *Deddf Cydraddoldeb 2010*.

Os derbynnir y cais 'tu hwnt i'r cyfyngiad amser', bydd yr adolygydd yn symud ymlaen i ystyried y mater yn y modd arferol, fel y nodir isod. Ond, bydd rhaid i'r oedi cyn cyflwyno'r VRR gael ei ystyried pan fydd yr adolygydd yn pennu a yw'n 'briodol' i'r mater gael ei atgyfeirio at y CPS. Mae hyn yn bennaf oherwydd y bydd y penderfyniad i beidio ag atgyfeirio'r mater at y CPS wedi ei gadarnhau a'i gyfleu i'r gwrthrych. Rhaid i'r holl oblygiadau o ran camau eraill hefyd gael eu hystyried. Yn y pen draw, rhaid i'r Adolygydd asesu a yw hyder y cyhoedd yn system gwynion yr heddlu yn ei gwneud yn ofynnol i atgyfeirio at y CPS dan yr holl amgylchiadau.

Mae budd cyhoeddus mewn sicrhau bod y CPS yn cael y cyfle i wneud penderfyniad cyhuddo mewn achosion priodol a bod gan achwynwyr a rhai â diddordeb hyder yn ein hymchwiliadau a'r modd yr ydym yn gwneud penderfyniadau. Bydd angen cydbwysu'r ffactorau hyn â'r budd cyhoeddus o ran sicrwydd yn y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau a'r risg o gam-ddefnyddio dadleuon proses pan fydd ail-ymweld â phenderfyniadau terfynol.

⁷ Gall cyflwyniadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau perthnasol gael eu hystyried gan yr Adolygydd, yn ôl ei farn.

Efallai y bydd angen gorchymyn gan yr Uchel Lys i ddileu'r penderfyniad terfynol i beidio ag atgyfeirio at y CPS dan yr amgylchiadau hyn cyn y gellir atgyfeirio.

Rhyngweithio gyda llunio penderfyniadau eraill

Fel uchod, dylai'r awdurdod priodol ac unrhyw swyddog sy'n wrthrych gael gwybod y gall y penderfyniad gwreiddiol gan y CPS o ran atgyfeirio gael ei herio trwy gyfrwng VRR, sydd fel arfer i'w gyflawni cyn pen 28 diwrnod calendr.

Gofynnir i'r awdurdod priodol roi barn a yw'n gallu cyflwyno memorandwm dan baragraff 23(6) o Atodiad 3 Deddf Diwygio'r Heddlu (ar gyfer achosion cyn 1 Chwefror 2020) neu fynegi ei farn dan baragraff 23(5A) Atodlen 3 Deddf Diwygio'r Heddlu (ar gyfer achosion o 1 Chwefror 2020).

Mae'r IOPC yn ystyried y bydd yn anarferol iawn i benderfyniadau am faterion disgyblu gael eu dal yn ôl hyd ganlyniad y broses VRR. Petai hyn yn cael ei ystyried, mae'r IOPC yn annog awdurdodau priodol i gynnal trafodaeth agored yn y cyswllt hwn. Pan fydd yn briodol, gall yr IOPC gytuno i broses lunio penderfyniadau'r awdurdod priodol gael ei dal yn ôl tu hwnt i 15 diwrnod gwaith⁸ ar gyfer ymchwiliadau dan gynllun statudol 2012, neu i estyniad gael ei ganiatáu tu hwnt i 28 diwrnod calendr dan Reoliad 27(5) Rheoliadau Heddlu (Cwynion a Chamymddygiad) 2020, fel y bydd yn berthnasol.

Mae'r IOPC yn sylwi bod Cyfarwyddyd y Swyddfa Gartref 2020⁹ yn pwysleisio y bydd disgwyl i faterion disgyblu fynd yn eu blaenau er gwaethaf y posibilrwydd y bydd erlyniad troseddol:

“7.81 Pan fydd camau troseddol posibl neu heb eu cynnal yn erbyn swyddog, ni fydd y rhain fel arfer yn dal y camau disgyblu yn ôl. Dim ond pan fydd yr awdurdod priodol yn ystyried y byddai gweithred o'r fath yn amharu ar ganlyniad yr achos troseddol y byddant yn dal camau dan y Rheoliadau Ymddygiad yn ôl.

7.82 Y rhagdybiaeth yw y dylai camau o ran camymddygiad ddigwydd cyn, neu ar y cyd ag unrhyw gamau troseddol. Pan fydd yn cael ei bennu y byddai amharu ar ganlyniad yr achos troseddol yn digwydd, yna bydd y penderfyniad hwn yn cael ei adolygu yn gyson i osgoi unrhyw oedi afresymol o ran y camau camymddygiad. Os oes unrhyw amheuaeth yna dylid ceisio cyngor gan Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) neu awdurdod erlyn arall perthnasol.

7.83 Pan ddynodir amhariad posibl, bydd y camau dan y Rheoliadau Ymddygiad yn mynd ymlaen fel arfer nes bydd achos yn cael ei atgyfeirio i gamau camymddygiad neu wrandawriad camymddygiad cyflymach. Bydd y mater yn cael ei ymchwilio dan y drefn berthnasol a bydd adroddiad yr ymchwiliad yn cael ei gyflwyno.

⁸ Mae paragraff 11.46 o Gyfarwyddyd Statudol 2015 yr IPCC/IOPC yn nodi: “Mae'r IPCC yn disgwyl derbyn memorandwm yr awdurdod priodol cyn gynted ag y mae'n ymarferol ar ôl gwneud ei benderfyniadau a, beth bynnag, cyn pen 15 niwrnod gwaith i'r cais”.

⁹ Ymddygiad, Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd: Cyfarwyddyd Statudol ar Safonau Proffesiynol a Didwylledd mewn Plismona a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref.

Bydd yr awdurdod priodol wedyn yn penderfynu a oes achos i'w ateb o ran camymddygiad neu gamymddygiad difrifol neu'r un o'r ddau. Pan fydd achos i'w ateb, ni fydd unrhyw atgyfeiriad i gamau camymddygiad neu wrandawriad camymddygiad cyflymach yn digwydd pe bai hyn yn amharu ar gamau troseddol, yn ôl Rheoliad 10 o'r Rheoliadau Ymddygiad."

Ond, mewn achosion priodol gall Rheoliad 9, Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2012 a Rheoliad 10 Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020, fel sy'n berthnasol gael eu defnyddio er mwyn diogelu rhag amharu ar gamau troseddol.

Bydd yr IOPC yn annog ac yn disgwyl dialog agored gyda'r awdurdod priodol am y materion hyn.

Bydd yr IOPC yn sicrhau bod y gwrthrych a'r dioddefwr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf o ran y penderfyniadau a wneir, y prosesau sy'n cael eu dilyn, a'r amserlenni perthnasol.

Yr adolygiad

Pwy fydd yn gyfrifol?

Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal gan adolygydd annibynnol. Rhaid i'r adolygydd:

- (i) fod o'r un radd neu radd uwch na'r un wnaeth y penderfyniad cyntaf;
- (ii) fod heb gael unrhyw gyfrifoldeb o ran gwneud penderfyniadau yn yr ymchwiliad;
- (iii) fod heb unrhyw wrthdaro o ran buddiannau, yn unol â pholisi'r IOPC; a
- (iv) chyn belled ag y mae'n bosibl, fod yn seiliedig mewn swyddfa wahanol i'r ymchwiliad a'r un wnaeth y penderfyniad.

Faint o amser fydd yr adolygiad yn ei gymryd?

Dylai'r adolygiad gael ei gwblhau, pryd bynnag y bydd yn bosibl, cyn pen 28 diwrnod calendr o ddyddiad y cais. Bydd y dioddefwr, y gwrthrych, awdurdod priodol ac unrhyw unigolyn arall perthnasol yn cael diweddariad os rhagwelir na chedwir at yr amserlen, a bydd yn cael y newyddion diweddaraf yn gyson o hynny ymlaen am y cynnydd.

Dylai adolygiad gael ei gyflymu os oes perygl y bydd y dyddiad cau ar gyfer cyhuddo o drosedd dditiadwy yn dod i ben yn ystod y cyfnod ar gyfer yr adolygiad. Dylai'r adolygydd ystyried cysylltu gyda'r CPS dan amgylchiadau o'r fath.

Pa ddeunydd fydd yr adolygydd yn ei ystyried?

Dylai'r adolygydd gael yr adroddiad terfynol a'r penderfyniad dros dro, a chael mynediad at yr holl ddeunydd oedd ar gael i'r un wnaeth y penderfyniad gwreiddiol. Dylai'r adolygydd hefyd gael unrhyw gyflwyniadau a wnaed gan neu ar ran y dioddefwr.

Pa safon fydd yn cael ei weithredu?

Bydd yr adolygiad yn cynnwys dau gam:

1. A yw'r adolygydd yn ystyried bod yr amodau atgyfeirio wedi eu bodloni?
2. Os yw hynny'n wir, a yw'r adolygydd yn ystyried bod y penderfyniad atgyfeirio gwreiddiol yn anghywir?¹⁰

Cam 1: A yw'r amodau atgyfeirio wedi eu bodloni?

Bydd yr adolygydd yn ystyried yr achos o'r newydd ac yn llunio barn a yw'r prawf ar gyfer atgyfeirio dan baragraff 23(2) o Atodlen 3 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu wedi eu bodloni. Mae'r prawf hwn yn gofyn i'r amodau canlynol gael eu cyflawni:

- (i) Yr adroddiad yn dynodi y gall trosedd fod wedi cael ei chyflawni gan unigolyn (os o gwbl)¹¹ yr oedd yr ymchwiliad yn ymwneud â'i ymddygiad; ac
- (ii) bod yr amgylchiadau yn rhai sydd, ym marn y [Cyfarwyddwr Cyffredinol] 1, yn rhai sy'n ei gwneud yn briodol i'r materion sy'n cael eu trin yn yr adroddiad gael eu hystyried gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.

Os nad yw'r adolygydd yn glir am unrhyw beth yn ymwneud â'r ymchwiliad, dylai ymgysylltu â'r tîm sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad yn gyntaf.

Dylai'r adolygydd ystyried unrhyw gyflwyniadau a gyflwynwyd gan y dioddefwr i gefnogi cais am adolygiad¹². Pan fydd y dioddefwr wedi rhoi tystiolaeth newydd, efallai y bydd angen ystyried a ddylid ailagor yr ymchwiliad.

Os yw'r adolygydd o'r farn nad yw'r prawf ar gyfer atgyfeirio wedi ei gyflawni, yna bydd y penderfyniad dros dro i beidio ag atgyfeirio at y CPS yn cael ei gadarnhau.

Os yw'r adolygydd o'r farn bod y prawf ar gyfer atgyfeirio wedi ei gyflawni, yna bydd yn mynd ymlaen i ystyried y penderfyniad dros dro er mwyn pennu a yw'n anghywir.

Cam 2: A oedd y penderfyniad atgyfeirio gwreiddiol yn anghywir?

Nid yw penderfyniad yn anghywir am y rheswm syml nad yw'r adolygydd yn cytuno ag o. Wrth lunio barn a yw'r penderfyniad yn anghywir dylai'r adolygydd ystyried a oedd unrhyw un o'r rhestr nad yw'n hollgynhwysol isod o ffactorau yn berthnasol:

- camgymeriad perthnasol yn y modd y dehonglwyd y dystiolaeth
- dehongliad anghywir o'r gyfraith neu ei gweithredu yn anghywir
- gweithredu'r prawf dan baragraff 23(2) Atodlen 3 Deddf Diwygio'r Heddlu yn anghywir, neu beidio â dilyn cyfarwyddyd perthnasol gan yr IOPC ar y prawf hwnnw

¹⁰ Rhoddir cyfarwyddyd ar benderfynu a yw penderfyniad yn 'anghywir' isod.

¹¹ Sylwer bod 'os o gwbl' yn ymddangos yn y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i achosion ar ôl 1 Chwefror 2020 yn unig. Ond, nid yw hyn yn gwneud unrhyw wahaniaeth perthnasol i'r prawf.

¹² Pan fydd y cyflwyniadau hynny wedi cael eu cyflwyno 'mewn pryd'. Pan fydd cyflwyniadau wedi cael eu derbyn yn hwyr, gallant gael eu hystyried, yn amodol ar farn yr adolygydd.

Os bydd yr adolygydd yn pennu nad yw'r penderfyniad dros dro yn anghywir, yna bydd y penderfyniad dros dro yn cael ei gadarnhau.

Os bydd yr adolygydd yn pennu bod y penderfyniad dros dro yn anghywir, yna bydd penderfyniad newydd yn cael ei wneud i atgyfeirio at y CPS.

Petai'r cyfyngiad amser ar gyfer erlyn trosedd dditiadwy yn unig wedi pasio, ni fydd yn bosibl atgyfeirio, a bydd angen rhoi ystyriaeth i'r canlyniad priodol.

Cadw cofnodion

Rhaid i'r adolygydd gofnodi:

- ei benderfyniad, os yn berthnasol, a ddylid ystyried cais tu hwnt i'r amser;
- ei benderfyniad a ddylai'r mater gael ei atgyfeirio at y CPS, gyda'r rhesymeg i gyd-fynd â hynny.

Bydd y dioddefwr yn cael gwybod am y penderfyniad terfynol ac yn cael digon o wybodaeth i'w alluogi i ddeall y penderfyniad a wnaed. Bydd yr ymchwilydd arweiniol, ar yr un pryd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r awdurdod priodol, ac unrhyw unigolyn perthnasol arall am y penderfyniad a'r rhesymeg.

Dylai'r dioddefwr gael gwybod nad oes hawl i apel nag adolygiad ar y penderfyniad hwn, heblaw trwy adolygiad barnwrol trwy'r llysoedd.

Dynodi camau ymchwilio pellach a/neu lunio penderfyniadau gwallus

Mae'n bosibl, wrth gynnal yr adolygiad y bydd yr adolygydd yn dynodi (i) camau ymchwilio pellach y mae'n ystyried y dylid bod wedi eu cynnal; a/neu (ii) bod penderfyniadau a wnaed am faterion disgyblu yn ymddangos yn wallus. Rhagwelir y bydd yr achosion hyn yn brin. Dan amgylchiadau o'r fath, dylai'r adolygydd ystyried ai ailagor y mater neu ail-ymchwilio allai fod yn briodol.

© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2020)

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai lle nodir yn wahanol.

